# Asesu cyfyngiadau a mesurau penodol

**Cyfyngiadau o dan asesiad**

O ddydd Llun 11 Hydref 2021 ymlaen, bu'n rhaid i bobl ddangos pàs COVID y GIG i ddangos eu bod naill ai wedi'u brechu'n llawn neu wedi cael prawf llif unffordd negyddol yn ddiweddar, er mwyn mynd i'r lleoliadau a'r digwyddiadau canlynol:

- Clybiau nos a lleoliadau tebyg
- Digwyddiadau dan do heb seddi sy'n cynnwys mwy na 500 o bobl, lle mae pobl yn cymysgu'n agos am gyfnodau hir.
- Digwyddiadau awyr agored heb seddi o dros 4,000, lle bydd pobl yn cymysgu'n agos am gyfnodau hir.
- Unrhyw ddigwyddiad, lle mae dros 10,000 o bobl yn bresennol.

Estynnwyd y pàs COVID i gynnwys theatrau sinema a neuaddau cyngerdd o 15 Tachwedd 2021.

Mae'r pàs COVID yn galluogi pobl i brofi eu bod naill ai wedi cael eu brechu'n llawn neu ddarparu tystiolaeth o brawf llif unffordd negyddol.

Mae unigolion yn gallu cael mynediad at eu pàs COVID drwy ddefnyddio system ddigidol y GIG sy'n eu galluogi i gynhyrchu pàs COVID gan ddefnyddio ffôn clyfar, cyfrifiadur neu liniadur. Cael mynediad at eich pàs COVID (ar nhs.uk).

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Darllenwch y canllawiau cyfredol ar gael mynediad at y pàs COVID.

Gellir archebu profion llif unffordd ar wefan Llywodraeth Cymru: **Cael profion llif unffordd cyflym ar gyfer COVID-19 os nad oes gennych chi symptomau.**

Datblygwyd canllawiau busnes i amlinellu i fusnesau yr hyn dylid ei ystyried wrth i'r rhai sy'n bresennol ddangos eu Pàs COVID.

Mae defnyddio pàs COVID a'r profion llif unffordd yn un ffordd o leihau'r risg y bydd pobl sydd wedi'u heintio yn dod i mewn ac yn lledaenu'r coronafeirws. Efallai y bydd trefnwyr hefyd yn dymuno gofyn i bawb sy'n dod i safle'r digwyddiad gynnal prawf COVID-19 cyflym gwirfoddol yn y cartref (Dyfais Llif Unffordd) er mwyn helpu i ddiogelu eu hunain, eraill a darparu'r digwyddiad yn ddiogel.

**Argymhellion:**

**Sut mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu defnyddio mewn mesurau rheoli COVID-19, gan gynnwys y mesur hwn:**

- Tymor hir/canolig/byr

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**Sut mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu defnyddio:**

**Tymor hir** – Egwyddorion ar gyfer mesurau llinell sylfaen

Mae'r mesurau arfaethedig wedi cael eu dylunio ar sail yr egwyddorion arfaethedig canlynol, er mwyn symlrwydd ac eglurder:

a. Dylai'r llinell sylfaen ddarparu'r lefel uchaf bosibl o lacio, gan gydnabod niwed ehangach y mesurau diogelu, ar yr un pryd â chadw'r feirws ar lefelau y gellir eu rheoli.

b. Bydd ail-adeiladu'r economi, dychwelyd i hyfywedd ariannol i fusnesau a gweithredu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy arferol yn nod allweddol.

c. Dylai'r mesurau sy'n weddill ar ryddid unigolion fod yn rhai sy'n cael effaith niweidiol gymharol fach ac nad ydynt yn cyfrannu at gronni anghydraddoldebau neu niwed ehangach, pan fo'n bosibl.

Dylai mesurau helpu i wreiddio ymddygiad a thueddiadau cadarnhaol hirdymor sy'n gysylltiedig â nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

**Atal**

Bydd atal y feirws rhag lledaenu yn canolbwyntio ar sawl agwedd. Bydd y rhain yn cynnwys sicrhau bod mesurau rhesymol ar waith i fusnesau ac eraill, a bod cyflogwyr yn parhau i wneud darpariaethau i staff allu parhau i weithio gartref lle bo hynny'n ymarferol.

Mesurau rhesymol sy'n gysylltiedig ag asesu risg mewn gweithleoedd, safleoedd manwerthu, lletygarwch a gwasanaethau cyhoeddus.

- Gofyniad cyfreithiol ar fusnesau ac eraill i gynnal asesiad risg Covid-19 mewn ymgynghoriad â'r rheini sy'n gweithio yn yr adeilad a'u cynrychiolwyr.

- Gofyniad cyfreithiol ar bobl sy'n gyfrifol am adeilad i gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws a'r risg i staff (ond yn llai penodol am fesurau lliniaru unigol mewn rheoliadau).

- Gofyniad cyfreithiol i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus a rhai lleoliadau cyhoeddus dan do eraill, oni bai eu bod wedi'u heithrio neu lle mae'r cyd-destun yn gwneud hyn yn amhosibl e.e. bwyta ac yfed mewn bwyty.

- Cydgynhyrchu a defnyddio fframweithiau sector i reoli'r gwaith o ddwysáu a llacio mesurau iechyd y cyhoedd, fel gorchuddion wyneb mewn ysgolion.

- Canllawiau ynghylch;
    - cadw pellter corfforol pan fo'n bosibl,
    - awyru digonol mewn adeiladau,
    - osgoi mannau prysur,
    - hylendid anadlol a dwylo, a
    - dewisiadau cyfrifol am lefydd prysur

- Pecynnau profi LFD ar gael yn eang, naill ai am ddim drwy ysgolion neu o bosibl yn cael eu cyflenwi'n fasnachol, ac annog pobl i'w defnyddio.

Gweithio gartref ac osgoi mynd i'r gwaith pan fyddwch chi'n sâl

- Canllawiau i annog pobl i weithio gartref os gallant, ac ar gyfer busnesau, i alluogi pobl i weithio gartref, ynghyd â mwy o ganolfannau gweithio o bell i roi mwy o hyblygrwydd a dewis i bobl a busnesau

- Canllawiau iechyd y cyhoedd yn atgyfnerthu pwysigrwydd aros gartref pan fyddant yn sâl.

**Integreiddio**

Mae cynllun Rheoli'r Coronafeirws yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, gan symud drwy'r lefelau rhybudd, wedi'i arwain gan y data gwyddonol diweddaraf sydd ar gael. Mae'n nodi cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r feirws er mwyn cefnogi gweithrediad mwy normal o wasanaethau cyhoeddus

Mae'r mesurau hyn ar gyfer Cymru gyfan wedi cael eu dylunio i fod mor syml, teg a chlir â phosibl. Maent hefyd yn adlewyrchu'r cyngor rydym wedi'i gael gan ein Grŵp Cynghori Technegol (TAG) ein hunain, sy'n cydlynu cyngor gwyddonol a thechnegol i gefnogi'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru yn ystod argyfyngau. Dywedodd TAG mai dull cenedlaethol o ymdrin â chyfyngiadau sy'n fwyaf tebygol o gael ei ddeall ac o fod yn effeithiol.

Drwy gydol y pandemig, mae cydbwysedd y niwed wedi newid yn sylweddol. Mae'r cynllun wedi cael ei ddiweddaru a'i deilwra'n barhaus i sicrhau perthnasedd y cynllun wrth i ni symud drwy'r lefelau rhybudd yng Nghymru.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu gydag ystod eang o safbwyntiau rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol wedi'u hintegreiddio i'r gwaith o lunio polisïau'r ddogfen. Mae'r adolygiadau o'r rheoliadau yn ystyried y cynllun yn ofalus i sicrhau bod niwed ehangach sy'n effeithio ar bob rhan o gymdeithas yng Nghymru, fel niwed economaidd-gymdeithasol, nid dim ond pryderon iechyd y cyhoedd, wedi cael eu hystyried.

O ddydd Llun 11 Hydref 2021 ymlaen, mae'n rhaid i bobl ddangos pàs COVID y GIG i ddangos eu bod naill ai wedi'u brechu'n llawn neu wedi cael prawf llif unffordd negyddol yn ddiweddar i fynd i'r lleoliadau a'r digwyddiadau canlynol:

- Clybiau nos a lleoliadau tebyg
- Digwyddiadau dan do heb seddi sy'n cynnwys mwy na 500 o bobl, lle mae pobl yn cymysgu'n agos am gyfnodau hir.
- Digwyddiadau awyr agored heb seddi o dros 4,000, lle bydd pobl yn cymysgu'n agos am gyfnodau hir.
- Unrhyw ddigwyddiad, lle mae dros 10,000 o bobl yn bresennol.

Bydd y canlynol wedi'u heithrio

- protestiadau;
- digwyddiadau chwaraeon â chyfranogaeth dorfol;
- addoli
- angladdau, seremonïau priodas neu bartneriaethau sifil a chynulliadau cysylltiedig ar ôl y seremoni

Estynnwyd y pàs COVID i gynnwys theatrau sinema a neuaddau cyngerdd o 15 Tachwedd 2021.

**Cydweithredu a Chyfranogiad**

Mae swyddogion polisi wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol perthnasol drwy gydol y pandemig i sicrhau bod unrhyw fesurau lliniaru posibl yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith pan fydd cyfyngiadau'n cael eu gosod neu eu llacio.

Oherwydd natur y pandemig, mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun rheoli a'r polisi yn gyffredinol mewn perthynas â chyfyngiadau wedi cael ei wneud yn gyflym. O ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu ymgynghori â dinasyddion wrth ddatblygu'r cynllun rheoli fel y byddai fel arfer.

Fodd bynnag, mae Gweinidogion a swyddogion polisi wedi cael eu hysbysu drwy arolygon rheolaidd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r arolygon hyn wedi dangos safbwyntiau pobl ynghylch y pandemig, gan gynnwys safbwyntiau ar ddull Llywodraeth Cymru o Ddiogelu Cymru[1].

EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae nifer o astudiaethau sy'n berthnasol i Gymru ac yn rhyngwladol yn dangos bod y coronafeirws yn cael, neu'n debygol o gael, effaith barhaol ar lesiant pobl.[2]. Mae'n

---

[1] Cyngor diweddaraf gan y Grŵp Cyngor Technegol a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd ar y dystiolaeth ar gyfer defnyddio Pasys COVID | LLYW.CYMRU

[2] Gweler er enghraifft

gwaethygu teimladau o orbryder, unigrwydd ac anhapusrwydd ymysg pobl. Mae hyn yn aml oherwydd diffyg cyswllt â'u cyfoedion.

Mae'r What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall celfyddydau cyfranogol, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol wella llesiant pan fyddant yn dod â chyfranogwyr at ei gilydd yn yr un gofod ffisegol[3].

Roedd Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gyfer yr wythnos 27 Medi i 4 Hydref, wedi dangos bod 12% yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl (29% ychydig), a dywedodd 37% fod eu hansawdd bywyd yn waeth na chyn y pandemig.[4] Fe wnaeth yr elusen iechyd meddwl Mind gyhoeddi tystiolaeth o arolwg y llynedd, a oedd yn awgrymu bod iechyd meddwl dros hanner yr oedolion a'r bobl ifanc yn y DU wedi dirywio ers i'r cyfyngiadau symud fod mewn grym, gyda'r effaith waethaf ar bobl ifanc.[5] Felly, mae'n bwysig bod pobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu llesiant.

Mae llawer o bobl yn dal yn bryderus ynghylch y feirws. Mae'r data diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a nodir uchod hefyd yn cefnogi hyn, gyda 16% yn dweud eu bod yn poeni llawer a 41% yn dweud eu bod yn poeni ychydig wrth fynd allan mewn mannau cyhoeddus. Gallai cyflwyno'r pasys COVID ar gyfer y lleoliadau hyn helpu i dawelu meddyliau'r rheini sy'n poeni am wneud y gweithgareddau hyn, a gallai eu hannog i fynd i'r lleoliadau a'r digwyddiadau hyn a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Roedd yr un arolwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gofyn i ymatebwyr sut byddai'r gofyniad i ddangos pasys COVID yn effeithio ar eu tebygolrwydd o fynd i ddigwyddiad mawr neu glwb nos, gyda 34% yn dweud y byddent yn fwy tebygol o fynd, 28% yn dweud dim gwahaniaeth a dim ond 7% yn dweud y byddai'n eu gwneud yn llai tebygol o fynd.

Mae cyfoeth o dystiolaeth o arolygon sy'n tynnu sylw at niwed cymdeithasol y cyfyngiadau, gan gynnwys effeithiau negyddol sylweddol ar iechyd a llesiant meddyliol[6]. Mae'r niwed hwn yn arbennig o ddifrifol i'r ifanc sy'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn dioddef iechyd meddwl gwael. Er enghraifft, mae canfyddiadau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Covid-19 ar lesiant yn dangos bod mesurau llesiant ym Mhrydain Fawr wedi bod yn gyson is na'r lefelau cyn y pandemig. Ar ben hynny, roedd tua 1 o bob 5 o bobl wedi profi rhyw fath o iselder o fis Ionawr i fis Mawrth 2021. Er bod hyn wedi gostwng i tua 1 mewn 6 o fis Gorffennaf i fis Awst 2021, mae'r rhain yn llawer uwch na'r 1 o bob 10 o bobl a ddywedodd eu bod wedi cael rhyw fath o iselder yn y cyfnod cyn y pandemig (Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020). Mae hefyd yn adrodd bod lefelau iselder yn uwch ymysg oedolion iau, merched, oedolion anabl, y di-waith, y rhai na allant fforddio cost annisgwyl a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Gallai pasys COVID gyfrannu at leihau trosglwyddiad yn y lleoliadau hyn, a ddylai helpu i leihau'r pwysau ar y GIG. Os bydd hyn yn sicrhau bod y lleoliadau a'r

---

[2] https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

[4] Iechyd Cyhoeddus Cymru Sut wyt ti? - Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales) 27 Medi – 4 Hydref

[5] Mind (2020) The mental health emergency: How has the coronavirus pandemic impacted our mental health?

[6] REPORTS | COVID Social Study

digwyddiadau hyn yn gallu aros yn agored yn y tymor hir, bydd llesiant pobl yn gwella mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid i'r busnesau hyn gau eto.

Efallai y bydd y gofynion ychwanegol yn golygu y bydd rhai pobl yn gyndyn o ddod i'r lleoliadau hyn. Yn benodol, efallai y bydd y rheini sydd heb eu brechu yn gweld y gofyniad i ddarparu tystiolaeth o brawf negyddol fel rhwystr ychwanegol, a allai wneud iddynt deimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

Efallai y bydd rhwystrau ychwanegol i'r rheini nad oes ganddynt fynediad hawdd at y pasys COVID, fel y rheini ar incwm isel nad oes ganddynt ffonau clyfar o bosibl. Mae tystiolaeth flaenorol gan y Resolution Foundation[7] wedi dangos bod effaith y mesurau symud wedi cael ei theimlo'n anghymesur gan y rheini sydd ar incwm isel, o ganlyniad i'r cyfyngiadau'n cau sectorau sydd â nifer anghymesur o weithwyr ar incwm isel. Gallai hyn fod yn rhwystr ychwanegol i'r rheini sydd ar incwm isel rhag mynd i'r digwyddiadau hyn, a allai gynnal a chreu mwy o anghydraddoldebau llesiant.

Mae mwy o risg o ddiweithdra os nad yw busnesau'n gallu addasu i'r gofynion ychwanegol hyn. Mae wedi'i sefydlu bod diweithdra'n gysylltiedig â lefelau llesiant isel ac iechyd sy'n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn teimlo effeithiau niweidiol os byddant yn ymuno â'r farchnad lafur yn ystod dirywiad economaidd. Mae tystiolaeth y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn dirwasgiad gael effeithiau gydol oes ar yr economi, iechyd, llesiant a hyd yn oed disgwyliad oes pobl ifanc.[8]

Yn ogystal, nododd cyngor diweddar gan y Grŵp Cynghori Technegol anfanteision posibl, fel y posibilrwydd o fod yn hunanfodlon, cymysgu cyn/ar ôl digwyddiadau, ffugio posibl, trefniadau ymarferol fel staff yn cael amser i wirio, y posibilrwydd o giwiau'n ffurfio wrth aros i wirio'r pasys ac yn y blaen (mae adnabod y pasys yn rhan o'r gyfres ehangach o fesurau).[9]

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae amcangyfrif effaith mesurau diogelu ar yr economi yn destun ansicrwydd eithriadol, gan ei fod yn dibynnu ar asesiad o sut mae'r mesurau hyn yn effeithio ar ymddygiad busnesau a defnyddwyr ac asesiad o sut byddai busnesau a defnyddwyr yn ymddwyn yn absenoldeb mesurau.

Byddai effeithiau pasys COVID ar y lleoliadau a'r digwyddiadau yr effeithir arnynt yn dibynnu ar i ba raddau y gall busnesau addasu i'r mesurau sydd yn eu lle. Efallai fod gan rai busnesau weithdrefnau ar waith yn barod, ond i rai, efallai y bydd angen buddsoddiad ychwanegol mewn technoleg a staff. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar gostau busnesau sydd ymysg y rheini sydd wedi dioddef fwyaf yn ystod y pandemig.

Mae risg hefyd y gallai cyflwyno pasys COVID yng Nghymru, ar adeg pan nad yw Lloegr wedi'u cyflwyno, arwain at Gymru'n colli gweithgarwch economaidd i Loegr, yn

[7] Low Pay Britain 2021 • Resolution Foundation
[8] Darllenwch: https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk
[9] Y Grŵp Cynghori Technegol: y cyngor ar basbortau brechlyn - LLYW.CYMRU

enwedig mewn ardaloedd ar y ffin. Er bydd digwyddiadau'n parhau i allu gweithredu yng Nghymru, gallai'r gofynion ychwanegol olygu bod rhai trefnwyr yn dewis trefnu llai o ddigwyddiadau yng Nghymru. Efallai y bydd effeithiau tymor hwy hefyd, hyd yn oed os bydd gofynion pasys COVID yn cael eu tynnu'n ôl yn y dyfodol, os bydd trefnwyr yn parhau i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau yn Lloegr a pheidio â dychwelyd i Gymru.

Fodd bynnag, mewn gwirionedd, bydd lefel y colledion economaidd yn cael ei dylanwadu gan ganlyniadau tymor hwy wrth gyflwyno mesurau pellach ar gyfer y pandemig yn y dyfodol ac ar ddisgwyliadau busnesau a defnyddwyr. Os bydd cyflwyno pasys COVID yn lleihau ansicrwydd ynghylch trywydd y pandemig yn y dyfodol, ac yn benodol, yn lleihau'r tebygolrwydd o gyfyngiadau yn y dyfodol, gallai hyn olygu bod gwariant a chynnyrch domestig gros yn uwch, yn hytrach nag yn is, na phe na baent yn cael eu cyflwyno. Ar y llaw arall, mae'n bosibl os nad yw busnesau'n gallu addasu, y gallai arwain at golli nifer anghymesur o fusnesau sydd ar fin methu ar hyn o bryd. Nid oes modd gwneud asesiad dibynadwy o'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd.

Roedd cyflwyno pasys COVID wedi effeithio'n bennaf ar glybiau nos a digwyddiadau penodol. Fodd bynnag, mae nifer o effeithiau sy'n ymwneud â COVID-19 a chyfyngiadau cysylltiedig wedi effeithio ar fusnesau, gan gynnwys ar gyflenwad llafur; cadwyni cyflenwi; llai o alw; ac effeithiau gweithredol fel llai o lif arian ac ati. Mae effeithiau COVID-19 wedi cael eu teimlo ar draws ystod eang o sectorau, ond maent wedi cael eu teimlo fwyaf mewn Llety a Bwyd, Adloniant a Hamdden[10].

Roedd 470 o fentrau yn y sector clybiau nos[11] yng Nghymru yn 2021, tua 0.4% o gyfanswm y mentrau. Mae hyn yn cymharu â 0.2% o'r holl fentrau ar lefel y DU ar gyfer y sector. Roedd 4,000 o bobl mewn gwaith yn 2020 yn y sector clybiau nos yng Nghymru (0.3% o gyfanswm cyflogaeth Cymru). O'i gymharu â Phrydain Fawr yn gyffredinol (0.2%), roedd gan Gymru gyfran uwch o gyflogaeth yn y sector.

Mae risg y bydd cyflwyno pasys COVID yn cael effaith negyddol ar hyfywedd llawer o glybiau nos yng Nghymru. Gallai arwain at gostau uwch i fusnesau oherwydd y gofynion monitro ychwanegol ac efallai y bydd llai o alw hefyd gan y bydd rhai pobl yn gyndyn o fynd. I'r gwrthwyneb, os bydd pobl yn teimlo'n llai pryderus am fynd i glybiau nos oherwydd y mesurau lliniaru cynyddol hyn, gallai hyn o leiaf wrthbwyso'r effaith hon yn rhannol. Nid yw'n bosibl mesur unrhyw effaith bosibl yn uniongyrchol, gan ei fod yn dibynnu ar asesiad o sut mae cyfyngiadau'n effeithio ar ymddygiad busnesau a defnyddwyr ac asesiad o sut byddai busnesau a defnyddwyr yn ymddwyn yn absenoldeb cyfyngiadau.

Fodd bynnag, mae'r diwydiant clybiau nos wedi mynegi pryderon, gan ddweud y gallai pasys COVID achosi risg bod clybwyr yn mynd i Loegr yn lle hynny, ac y bydd eu gweithredu'n "fympwyol", gan gyflwyno'r risg o anghydfodau rhwng staff a chwsmeriaid. Mae Cymdeithas Diwydiannau Nos hefyd wedi rhybuddio y byddai pasys COVID yn cael "effaith niweidiol enfawr ar fasnach, ac y byddai'n arwain at rai o'r busnesau tlotaf yng Nghymru yn colli allan i'r rheini yn Lloegr".

---

[10] [The impact of the coronavirus so far: the industries that struggled or recovered - Office for National Statistics (ons.gov.uk)]()

[11] Diffiniwyd fel Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 56301: Clybiau trwyddedig

Roedd 2,400 o fentrau yn y sector digwyddiadau[12] yng Nghymru yn 2021, tua 2.2% o gyfanswm y mentrau. Mae hyn yn cymharu â 2.6% o'r holl fentrau ar lefel y DU ar gyfer y sector. Roedd 27,000 o bobl mewn gwaith yn 2020 yn y sector digwyddiadau yng Nghymru (2.1% o gyfanswm cyflogaeth Cymru). O'i gymharu â Phrydain Fawr yn gyffredinol (2.2%), roedd gan Gymru gyfran is o gyflogaeth yn y sector.

Mae Rhaglen Ymchwil Digwyddiadau sy'n cael ei rhedeg yn Lloegr wedi cyhoeddi ei hadroddiad cyntaf sy'n ymwneud â cham 1 ei rhaglen, ac mae ei chanlyniadau'n dangos pwysigrwydd y sector digwyddiadau, dan do ac yn yr awyr agored, a'i gyfraniad at werth ychwanegol gros, swyddi, cadwyn gyflenwi ac economïau.[13] Mae effaith COVID ar y sector digwyddiadau wedi bod yn sylweddol ers y dechrau, ac mae'n dal yn her gan nad yw digwyddiadau wedi ailddechrau mewn unrhyw gapasiti sylweddol.

Mae canfyddiadau cychwynnol y gwaith hwn yn nodi (gweler adran 2.2) "oherwydd natur cyfyngiadau COVID-19, mae'r pandemig a'r cyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer ailagor wedi effeithio'n anghymesur ar sectorau sy'n dibynnu ar ddigwyddiadau. Cafwyd gostyngiad sylweddol mewn gwerth ychwanegol gros mewn sectorau cysylltiedig â digwyddiadau pan ddaeth y pandemig, a phan gafodd y cyfyngiadau symud eu rhoi ar waith ar ddechrau Ch2 2020. Gostyngodd y gwerth ychwanegol gros o 50-60% ar gyfer y sectorau hyn, tra bod gwerth ychwanegol gros yr economi gyfan wedi gostwng 25%, a sectorau eraill yn y sectorau Digidol a Thelegyfathrebu heb eu heffeithio o gwbl bron. Yn ystod haf 2020, cafwyd cynnydd cymedrol wrth lacio'r cyfyngiadau, ond roedd y gwerth ychwanegol gros ar gyfer cwmnïau yn y sector 'Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill' (AER) yn dal yn is o lawer na lefelau cyn y pandemig, sef tua 60% o lefelau Ionawr 2019.

Roedd llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Roedd y CJRS yn sicrhau, petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y byddai Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgresiwn). Gostyngodd Llywodraeth y DU lefel eu cyfraniad at yr hyn a warentir o ddiwedd mis Mehefin ymlaen, a oedd yn golygu y byddai gofyn i gyflogwyr gyfrannu'n raddol at sicrhau incwm eu gweithwyr. Daeth y cynllun hwn i ben yn llawn ar 30 Medi.

Mae'n bosibl y bydd rhoi'r gorau i ddefnyddio CJRS yn arwain at golli miloedd o swyddi o'r diwydiant digwyddiadau na fyddant yn gallu cyfrannu at y tapro os ydynt yn ei chael yn anymarferol yn fasnachol iddynt agor. Mae pryderon y gallai diffyg eglurder ynghylch cael gwared ar gyfyngiadau arwain at ddiswyddo staff yn rhagofalus yn wyneb ansicrwydd sylweddol ynghylch refeniw yn y dyfodol.

---

[12] Diffiniwyd fel Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 90: Gweithgareddau creadigol, celfyddydol ac adloniant, 799: Gwasanaethau cadw seddi eraill a gweithgareddau cysylltiedig, 823: Trefnu confensiynau a sioeau masnach, 931: Gweithgareddau chwaraeon, 5629: Gweithgareddau gwasanaeth bwyd eraill (9329): Gweithgareddau adloniant a hamdden eraill

[13] ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/publications/events-research-programme-phase-i-findings/events-research-programme-phase-i-findings#impact-on-the-economy-and-society

Canfu arolwg o'r diwydiant digwyddiadau ym mis Tachwedd 2020[14], fod 75% o'r ymatebwyr sy'n cyflogi staff wedi gorfod rhoi staff ar ffyrlo. Mae tua hanner (52%) y rhai sy'n cyflogi staff naill ai wedi dileu swyddi, wedi rhoi rhybudd neu'n bwriadu dileu swyddi, neu'n rhagweld gorfod dileu swyddi. Roedd y golled ganolrifol fesul busnes sy'n ymateb i'r arolwg yn sgil yr argyfwng rhwng £50,001 a £100,000. Roedd y golled ganolrifol fesul busnes wedi amrywio yn ôl maint y busnes. Roedd y golled ganolrifol ar gyfer y rheini sy'n cyflogi 1 i 5 aelod o staff o fewn yr ystod o £100,000 i £250,000, tra bo'r golled ganolrifol ar gyfer y rheini sy'n cyflogi mwy na 50 o staff yn fwy na £1,000,000[15].

Mae digwyddiadau'n gweithredu fel sbardun ar gyfer twristiaeth, lletygarwch, y gadwyn gyflenwi a chynhyrchwyr bwyd. Y gwariant cysylltiedig gan fynychwyr digwyddiad yn 2019 oedd:

- £220m ar ymweliadau diwrnod hamdden domestig 3+ awr (5% o'r gwariant ar ddiwrnod domestig)[16], ac amcangyfrif o £35m ar deithiau dros nos domestig (2% o'r gwariant dros nos domestig), lle mai digwyddiad chwaraeon yw'r prif weithgaredd[17].
- £88m ar ymweliadau diwrnod hamdden domestig 3+ awr (2% o'r gwariant ar ddiwrnod domestig), ac amcangyfrif o £105m ar deithiau dros nos domestig (6% o'r gwariant dros nos domestig), lle mai digwyddiad diwylliannol/celfyddydau yw'r prif weithgaredd.
- £21m ar deithiau dros nos domestig ar gyfer digwyddiad busnes (sef 15% o'r holl deithiau a gwariant busnes dros nos domestig, a 1.2% o'r holl wariant dros nos domestig).
- £72m ar deithiau busnes rhyngwladol (pob diben busnes – dim digon o fanylion yn y data i nodi 'digwyddiadau busnes'), sef 14% o'r gwariant yng Nghymru gan ymwelwyr rhyngwladol[18].

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae cyflwyno pasys COVID yn debygol o gael effaith ymylol ar yr amgylchedd. Mewn rhai achosion, gall leihau'r rhesymau i aelodau o'r cyhoedd deithio. Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd ansawdd aer yn parhau i fod yn waeth wrth gymharu â'r adegau lle cafwyd cyfyngiadau mwy cadarn, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud.

Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer yn y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

---

[14] https://gov.wales/events-industry-and-supply-chain-business-covid-19-impact-survey-12-november-8-december-2020-html

[15] Mae maint y sampl yn fach wrth adrodd canlyniadau yn ôl maint y busnes, ac felly mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn.

[16] Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr: 2019 | LLYW.CYMRU

[17] Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: 2019 | LLYW.CYMRU

[18] Visits to Wales by overseas residents, 2009 to 2019 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Mae asesiad o'r effaith ar hawliau plant wedi cael ei gynnal er mwyn asesu effaith bosibl y polisi hwn ar blant a phobl ifanc.

Nodwyd effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl, er enghraifft:

Cadarnhaol: mae'r polisi'n ceisio darparu amgylchedd mwy diogel ar gyfer digwyddiadau mawr, a fydd felly'n fwy diogel i blant a phobl ifanc sy'n mynychu'r digwyddiadau (erthygl 6 CCUHP: dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach ac erthygl 36: dylid amddiffyn plant rhag unrhyw weithgareddau a allai niweidio eu datblygiad)

Negyddol: efallai na fydd plant yn gallu mynychu digwyddiadau mawr os nad yw eu rhieni wedi cael eu brechu ac nad ydynt yn barod i sefyll y prawf llif unffordd cyn dod i'r digwyddiad.

Er bod llawer o blant ysgol eisoes wedi arfer â phrofion llif unffordd mewn ysgolion, mae mesurau lliniaru ychwanegol wedi cael eu hystyried hefyd, a bydd ymgyrch gyfathrebu gan Lywodraeth Cymru ynghylch manteision y brechlyn yn cael ei thargedu at grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Yn ogystal â hyn, bydd "canllawiau sut mae defnyddio" yn cael eu darparu i wneud yn siŵr bod rhieni plant yn cael sicrwydd ynghylch pa mor syml yw'r pasys COVID neu sut mae defnyddio a rhoi gwybod am brofion llif unffordd.

I'r rheini sydd wedi'u heithrio'n ddigidol (gan gynnwys rhieni neu neiniau a theidiau) bydd pàs papur ar gael sy'n dangos statws brechu, er gall gymryd hyd at uchafswm o 10 diwrnod rhwng yr alwad ffôn a chael y dystysgrif. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda busnesau i gynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth am ofynion[19].

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol: Gan fod y coronafeirws yn effeithio'n fwy difrifol ar iechyd pobl hŷn, bydd lleihau'r cyfraddau trosglwyddo drwy'r mesur ychwanegol hwn yn cael effaith gadarnhaol. Gall defnyddio'r Pás Covid | Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r gyfran fawr o bobl ledled Cymru nad ydynt yn hyderus yn ddigidol. Mae cyfresi data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos mai pobl hŷn, pobl anabl, y rheini sy'n byw mewn tai cymdeithasol a'r rheini | Mesurau lliniaru: Ni fydd cael eich brechu ddwywaith yr unig ffordd y gall unigolion brofi eu bod yn bodloni'r gofynion i fynd i ddigwyddiad neu fusnes (e.e. clybiau nos). |

[19] Pàs COVID: canllawiau ar gyfer busnesau a digwyddiadau | LLYW.CYMRU

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | hefyd annog mwy o bobl i fanteisio ar y brechiad, a fydd yn helpu i leihau cyfraddau achosion covid-19 cyffredinol, byddai hyn o fudd i bob grŵp oedran, yn enwedig pobl hŷn.<br><br><u>Negyddol</u>**:**<br>Os bydd mesurau'n arwain at fwy o bobl yn mynd yn hunanfodlon ac yn cymryd risg, mae'n bosibl y bydd cyfraddau achosion COVID-19 yn y gymuned yn codi a allai arwain at fwy o bobl yn mynd i'r ysbyty a marwolaethau ymhlith pobl hŷn (oherwydd eu bod yn fwy agored i COVID-19) a phobl iau (oherwydd eu bod yn fwy tebygol nad ydynt wedi'u brechu).<br>Efallai nad oes gan bobl hŷn fynediad at y dechnoleg ddigidol sydd ei hangen i gael gafael ar y pàs COVID ar-lein<br><br><br>Efallai y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn | sy'n economaidd anweithgar a di-waith yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol[20] h.y naill ai nad ydyn nhw'n defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol, nid oes ganddyn nhw'r sgiliau digidol sylfaenol i gael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth hanfodol, neu efallai nad oes ganddyn nhw fynediad at ddyfais na chysylltedd.<br><br>Yn dilyn adroddiadau bod clotiau gwaed penodol a phrin iawn yn sgil-effeithiau posibl brechlyn COVID-19 AstraZenica, mae unigolion o dan 30 oed yn cael cynnig brechlyn amgen. Mae arbenigwyr iechyd y cyhoedd wedi nodi'n glir bod manteision brechu gyda brechlyn COVID-19 AstraZenica yn parhau i fod yn drech na risgiau COVID-19 i'r mwyafrif helaeth o oedolion.[21]<br><br>Ym mis Awst, canfu astudiaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 11% o bobl ifanc 16-17 oed wedi dweud eu bod yn gyndyn o gael y brechlyn (yr uchaf o bob grŵp oedran).[22] Mae'n | Mae'r pasys COVID yn cynnwys dangos canlyniad negatif o Brawf Llif Unffordd o fewn 24 awr o fynychu.<br><br>Bydd ymddygiad sy'n cymryd risg/hunanfoddhao l drwy ddiogelwch tybiedig o gwrdd ag eraill sydd â phàs COVID yn cael ei amlygu mewn canllawiau craidd a thrwy lwybrau cyfathrebu, er mwyn pwysleisio y bydd pasys COVID yn un o gyfres o fesurau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith, ac nad yw'n disodli'r mesurau eraill hyn. |

[20] Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus. 10 Rhagfyr 2020
[21] Datganiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar bryderon diogelwch gyda brechlyn COVID-19 AstraZeneca - Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales)
[22] Coronavirus and vaccine hesitancy, Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | poeni am risgiau cynyddol o fod yn fwy hunanfoddhaol ac felly bydd mwy o risgiau'n cael eu cymryd, oherwydd bod y rheini sydd â'r pàs COVID yn teimlo'n ddiogel wrth gyfarfod. | debygol y bydd amrywiaeth o resymau dros hyn, gan gynnwys pryderon am sgil effeithiau posibl a'r tebygolrwydd isel o afiechyd difrifol ar gyfer y grŵp oedran hwn. Bydd y niferoedd sy'n cael eu brechu mewn oedrannau iau yn cael eu monitro.<br><br>Grwpiau oedran hŷn<br><br>Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran brechu grwpiau oedran hŷn, gyda dros 90% o'r holl bobl dros 60 oed yng Nghymru wedi cael eu brechlyn cyntaf (yn codi i 95.7% mewn pobl dros 80 oed).[23] Bydd gwaith yn parhau i gynyddu hyn ymhellach er na fydd rhai unigolion yn gallu cymryd y brechlyn ar sail feddygol ac i rai, yn anffodus, tua diwedd eu hoes, efallai na fydd brechu'n briodol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol. | |
| Anabledd (ystyriwch fodel cymdeithasol anabledd24 | Cadarnhaol: Os bydd pasys COVID yn annog mwy o bobl i gael eu brechu, gall hyn leihau cyfraddau | Mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bobl anabl yng Nghymru; mae hyn yn cael ei archwilio gan y | Bydd ymddygiad sy'n cymryd risg/hunanfoddhao l drwy ddiogelwch tybiedig o gwrdd |

[23] Firoleg gyflym COVID-19 - Cyhoeddus - Amddiffyniad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Darlun Cyhoeddus

[24] Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu namau ond gan y rhwystrau maent yn eu hwynebu mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch ar y fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o namau yn anabl) | achosion COVID-19 yn y gymuned a thrwy hynny fod o fudd i bobl anabl (sy'n fwy tebygol o fod yn agored i ganlyniadau difrifol COVID-19).<br><br><u>Negyddol</u>**:** Negyddol: Mae'r mewnwelediadau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar COVID-19 (https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19latestinsights/deaths) yn dangos bod pandemig COVID-19, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021, wedi cael effaith gyfrannol uwch yn gyson ar gyfraddau marwolaethau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Wrth ganolbwyntio ar farwolaethau oherwydd COVID-19, roedd y gyfradd marwolaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Lloegr yn fwy na dwbl hynny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig am 12 o'r 14 mis. Os bydd pasys COVID yn arwain at | Tasglu Hawliau PBobl Anabl.[25] Cafodd pobl ag anabledd dysgu dwys/difrifol ac unigolion sydd â sgitsoffrenia neu anhwylder deubegynol, neu unrhyw salwch meddwl sy'n achosi nam swyddogaethol difrifol, eu hargymell ar gyfer eu brechu yng ngrŵp blaenoriaeth 6 gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi dull cynhwysol o annog pobl i gymryd y brechlyn yn y grwpiau hyn ac wedi defnyddio rhestrau meddygon teulu presennol a chodau adnabod ar gyfer anableddau dysgu a salwch meddwl difrifol.[26]<br><br>Mae'r grwpiau hyn yn wynebu heriau penodol o ran brechu a phrofi, yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Efallai yr amherir ar y gallu i fynegi cydsyniad ar sail gwybodaeth o ran unigolion ag anableddau dysgu neu analluogrwydd. Efallai y bydd angen adeiladau gyda chyfleusterau mynediad penodol ar unigolion ag anableddau corfforol. Efallai y bydd angen cymorth | ag eraill sydd â phàs COVID yn cael ei amlygu mewn canllawiau craidd a thrwy lwybrau cyfathrebu, er mwyn pwysleisio y bydd pasys COVID yn un o gyfres o fesurau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith, ac nad yw'n disodli'r mesurau eraill hyn. |

[25] Datganiad Ysgrifenedig: Hawliau Pobl Anabl yng Nghymru (24 Mawrth 2021) - LLYW.CYMRU

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | ddirywiad economaidd, gallai hyn effeithio'n anghymesur ar bobl anabl gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod byw gyda pherson sydd ag anabledd yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant a phobl o oedran gweithio ([Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 \| LLYW.CYMRU]())<br><br>Mae ystadegau'n dangos bod pobl anabl wedi ffurfio canran fawr ac anghymesur (68%) o farwolaethau yn ymwneud â Covid-19. Yn ogystal â'r risg uwch o farwolaeth, i rai pobl sydd â nam, mae'n bosibl y bydd risg o Covid yn achosi cymhlethdodau gyda chyflyrau presennol, neu eu gwaethygu. Yn ogystal â mwy o risgiau i iechyd, ac oherwydd hyn, mae'n bosibl y bydd pobl anabl, yn enwedig y rheini sydd â systemau imiwnedd gwan, yn poeni'n gyfiawn am y risgiau cynyddol sy'n eu | ychwanegol ar y rheini sy'n drwm eu clyw neu sydd â nam ar eu golwg i ddefnyddio cyfleusterau profi a brechu. Gall problemau iechyd meddwl wneud unigolion yn llai tebygol o gymryd rhan mewn profion a'r rhaglen frechu. Bydd rhai unigolion hefyd â rhesymau meddygol pam nad yw brechu'n briodol iddyn nhw.<br><br>Nid yw gwir faint y ddarpariaeth brechu ar gyfer pobl anabl yn glir oherwydd heriau wrth adnabod y grwpiau hyn, sy'n cynnwys rhywfaint o ddisgresiwn clinigol. Fodd bynnag, datgelodd arolwg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Lloegr gyfradd frechu Covid-19 is (ar gyfer oedolion 70 oed neu hŷn erbyn 11 Mawrth 2021) ar gyfer y rheini a ddywedodd eu bod wedi cael eu cyfyngu ychydig gan eu hanabledd (darpariaeth o 89.9%) neu wedi'u cyfyngu'n fawr gan eu hanabledd (darpariaeth o 86.6%) o'i gymharu â'r rheini nad oeddent wedi rhoi gwybod am unrhyw anabledd (darpariaeth o 91.0%).[27] | |

[27] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/co

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | hwynebu, sy'n gysylltiedig â mwy o bobl sy'n cymysgu'n mynd yn hunanfodlon wrth gymdeithasu, gan eu bod yn teimlo bod cymysgu â'r rheini sydd â'r pàs COVID yn ddiogel a gallent osgoi mesurau rhesymol eraill o ganlyniad.<br><br>Cadarnhaol: Mae COVID-19 yn cael effaith anghymesur sylweddol ar iechyd rhai pobl anabl a rhai pobl sydd â chyflyrau iechyd cronig. Bydd mesurau cryfach i leihau'r trosglwyddiad yn cael rhai effeithiau cadarnhaol ar bobl anabl. | | |
| Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Cadarnhaol: Gall y grŵp hwn elwa'n fwy nag eraill ar allu ymgymryd â chymdeithasu diogel a chyfrifol gyda ffrindiau a rhwydweithiau cymorth cymheiriaid, gyda'r mesur diogelu ychwanegol hwn ar waith, o ystyried bod y grŵp hwn mewn mwy o berygl o gael ei ynysu, mwy o straen, amlygiad i aelodau amharchus o'r teulu a thrais, gan effeithio'n benodol ar bobl | Amh | Amh |

ronavirusandvaccinationratesinpeopleaged70yearsandoverbysociodemographiccharacteristicengland/8december2020to11march2021

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | drawsryweddol iau a hŷn.<br><br>Negyddol: Gall mesurau COVID-19 a'r effaith economaidd-gymdeithasol gysylltiedig effeithio'n arbennig ar y grŵp hwn, am iddo gael ei gynrychioli'n anghymesur fel un sydd ag incwm is, yn profi digartrefedd a thlodi, ac yn cael llai o fynediad at wasanaethau gofal iechyd a chymorth. | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol: Mae'n bosibl bod pryderon ynghylch cymdeithasu wedi gwaethygu materion sy'n ymwneud ag unigrwydd, teimlo'n ynysig neu lai o fynediad at rwydweithiau cymorth, pryderon a allai gael eu lleihau gyda'r mesurau ychwanegol hyn.<br><br>Cadarnhaol: Os bydd pasys COVID yn arwain at fwy o bobl yn cael eu brechu, llai o drosglwyddiad a chyfraddau achosion COVID-19 is yn y gymuned, bydd hyn o | 17 Ebrill 2021, fe wnaeth y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ddiweddaru eu cyngor i gynnig brechlynnau Covid-19 i fenywod beichiog ar yr un pryd â gweddill y boblogaeth (yn seiliedig ar oed a grŵp risg clinigol).[28] Roedd y cyngor yn egluro na fydd angen i fenywod roi'r gorau i fwydo ar y fron er mwyn cael eu brechu ac nad oes tystiolaeth i awgrymu y bydd brechlynnau Covid-19 yn effeithio ar ffrwythlondeb.[29]<br><br>Dylid nodi, cyn y diweddariad hwn gan y | Amh |

[28] JCVI issues new advice on COVID-19 vaccination for pregnant women - GOV.UK (www.gov.uk)
[29] Covid-19: No evidence that vaccines can affect fertility, says new guidance | The BMJ

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | fudd i fenywod beichiog heb eu brechu.<br><br>Negyddol: Os bydd pasys COVID yn arwain at fwy o bobl yn mynd yn hunanfodlon, mwy o gymysgu a chyfraddau achosion COVID-19 uwch yn y gymuned, bydd hyn yn cael effaith andwyol ar fenywod beichiog heb eu brechu. | JCVI, mai'r cyngor oedd ystyried brechiad Covid-19 ar gyfer menywod beichiog dim ond pan oedd y risg o ddod i gysylltiad â'r feirws yn uchel neu pan na ellid ei osgoi, neu os oes gan y fenyw gyflyrau sylfaenol sy'n achosi risg uchel o gymhlethdodau yn sgil Covid-19. Gallai'r cyngor gwreiddiol a/neu'r camwybodaeth ynghylch effaith y brechlyn ar ffrwythlondeb arwain at lai o fenywod sy'n feichiog neu'n ceisio beichiogi yn cymryd y brechlyn. Dywedodd 11% o'r menywod a fynegodd deimladau negyddol am frechiad Covid-19 "Rydw i'n feichiog neu'n ceisio beichiogi ac yn ofni'r effeithiau ar fy maban".[30] Bydd nifer y rhai sy'n cael y brechlyn yn y grwpiau hyn yn cael ei fonitro wrth i'r rhaglen frechu gael ei chyflwyno i'r grwpiau hyn o fenywod. | |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr | Cadarnhaol: Os bydd pasys COVID yn lleihau trosglwyddiad ac yn annog mwy o bobl i gael eu brechu, gall hyn leihau cyfraddau achosion COVID-19 yn y gymuned a thrwy hynny fod o fudd i rai | Dywedwyd bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gymryd y brechlyn Covid-19.[31] Mae ymchwil gan UCL yn awgrymu bod dros 4 o bob 5 o'r rheini a oedd yn betrus ynghylch cymryd brechlyn Covid-19 ym mis Rhagfyr 2020, nawr | Bydd ymddygiad sy'n cymryd risg/hunanfoddhaol drwy ddiogelwch tybiedig o gwrdd ag eraill sydd â phàs COVID yn cael ei amlygu mewn canllawiau craidd a thrwy |

[30] Coronavirus and vaccine hesitancy, Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk) – 9 Awst
[31] Ethnic minority groups less likely to take COVID vaccine | Understanding Society. 18 Ionawr 2021

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| lloches a ffoaduriaid) | grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n fwy tebygol o fod heb eu brechu ac sy'n fwy tebygol o fod yn agored i ganlyniadau difrifol COVID-19<br><br>Negyddol: Os bydd pasys COVID yn arwain at fwy o bobl yn mynd yn hunanfodlon, mwy o gymysgu a chyfraddau achosion COVID-19 uwch yn y gymuned bydd hyn yn cael effaith andwyol ar leiafrifoedd ethnig sydd heb eu brechu.<br><br>Negyddol: Mae'r mewnwelediadau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar COVID-19 (https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19latestinsights/deaths) yn dangos bod pandemig COVID-19, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021, wedi cael effaith gyfrannol uwch yn gyson ar gyfraddau marwolaethau yn yr ardaloedd mwyaf | yn bwriadu cymryd, neu eisoes wedi cymryd, brechlyn. Ar gyfer oedolion o gefndiroedd De Asiaidd neu Ddu, y ffigurau oedd 90% ac 88% yn y drefn honno.[32] Roedd ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi gweld gostyngiad bach yn nifer y bobl sy'n cael eu brechu ar draws y rhan fwyaf o grwpiau; fodd bynnag, roedd 21% o oedolion o gefndiroedd Du neu Ddu Prydeinig yn dal i ddweud eu bod yn petruso ynghylch cael y brechlyn.[33] Mae tystiolaeth arolwg o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn awgrymu mai'r prif resymau dros bod yn betrus yw: ddim yn gwybod digon am y brechlyn; meddwl nad yw'n ddiogel; peidio ag ymddiried yn y wyddoniaeth; neu ddim eisiau cael y brechlyn.[34]<br><br>Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r bwlch yn y ddarpariaeth (o o leiaf un dos brechlyn) rhwng y grwpiau ethnig Du, Asiaidd, Cymysg ac Arall cyfun a'r grwpiau ethnig Gwyn cyfun wedi lleihau, | lwybrau cyfathrebu, er mwyn pwysleisio y bydd pasys COVID yn un o gyfres o fesurau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith, ac nad yw'n disodli'r mesurau eraill hyn.<br><br>Mae ymdrech barhaus i gynyddu cyfraddau brechu ymysg grwpiau lleiafrifoedd ethnig fel mesur lliniaru fel bod mwy o bobl wedyn yn gallu defnyddio statws brechu i gael mynediad, yn ogystal â chydgynhyrchu canllawiau lle bo hynny'n bosibl, drwy negeswyr dibynadwy i roi sicrwydd ynghylch pwrpas os oes amheuaeth.<br><br>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu llyfryn cymorth coronafeirws ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd ar gael mewn |

[32] Over 4 in 5 people who were hesitant would now take Covid-19 vaccine | UCL News - UCL – University College London. 24/03/2021
[33] Coronavirus and vaccine hesitancy, Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk) 6 Mai 2021
[34] One in ten BAME Britons say they will not get the coronavirus vaccine | YouGov

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | difreintiedig yn Lloegr. Wrth ganolbwyntio ar farwolaethau oherwydd COVID-19, roedd y gyfradd marwolaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Lloegr yn fwy na dwbl hynny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig am 12 o'r 14 mis. Os bydd pasys COVID yn arwain at ddirywiad economaidd, gall hyn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau ethnig gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod ethnigrwydd nad yw'n wyn yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o dlodi incwm cymharol (Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 \| LLYW.CYMRU).<br><br>Negyddol: Mae'n hysbys bod unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch hunanfoddhad y cyhoedd mewn lleoliadau sy'n defnyddio pasys Covid. | er bod hyn yn dal yn sylweddol yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran ac yn arbennig ar gyfer oedolion rhwng 18 a 29 oed.[35]<br><br>Mae ffoaduriaid, pobl sy'n chwilio am loches a mudwyr heb eu dogfennu yn debygol o fod yn llai tebygol o fanteisio ar y brechlyn Covid-19 a theimlo'n fwy petrus ynghylch cael y brechlyn. Mae'r rhwystrau'n cynnwys: pryderon ynghylch cynnwys brechlynnau a sgil-effeithiau; diffyg gwybodaeth mewn iaith briodol; diffyg ymddiriedaeth; ddim yn meddwl eu bod nhw angen y brechiad; a mynediad gwael at ofal sylfaenol. Mae gan ymfudwyr sydd heb gael eu cofnodi ofnau hefyd ynghylch gorfod talu am y brechlyn a wynebu gwiriadau mewnfudo os ydynt yn gwneud cais am y brechlyn, ac efallai nad ydynt yn ymwybodol na fydd hyn yn digwydd.[36] | nifer o wahanol ieithoedd.[37] |

[35] Adroddiad Gwyliadwriaeth Uwch Brechu COVID-19 Cymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhagfyr 2021
[36] https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2021.04.12.21255313v1
[37] https://sanctuary.gov.wales/covid-19

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Negyddol: Rhaglen Frechu a phasys COVID/mynediad at LFT – mae nifer sylweddol o bobl yn dal heb gael eu brechu am resymau amrywiol. Mae rhai sy’n dymuno cael eu brechu ond nad oes ganddynt unrhyw ddogfennau na dogfennau adnabod a/neu nad ydynt wedi’u cofrestru gyda Meddyg. Mae’n bosibl hefyd na fydd yr unigolion hyn yn gallu cael gafael ar Brofion Llif Unffordd neu basys y GIG am yr un rhesymau (gan gynnwys gorfod cael mynediad at rif GIG).<br><br>Mae gwahaniaethau hysbys o ran y nifer sy’n manteisio ar frechiadau a lefelau uwch o betruster mewn rhannu data â’r Llywodraeth, grwpiau o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Gallai hyn olygu bod yr opsiwn llif unffordd yn llai deniadol i’r grwpiau hyn.<br><br>Bydd nifer y bobl o grwpiau o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod wedi | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | cael brechiad mewn gwlad arall na fydd yn cael ei chydnabod ar y pàs Covid. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddylunio a darparu system i lwytho'r brechlynnau hyn i fyny a'u cofnodi. | | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Cadarnhaol: Os bydd pasys COVID yn arwain at fwy o bobl yn cael eu brechu, llai o drosglwyddiad a chyfraddau achosion COVID-19 is yn y gymuned, bydd hyn o fudd i bobl sydd heb eu brechu oherwydd eu crefydd/credoau.<br><br>Negyddol: Os bydd pasys COVID yn arwain at fwy o bobl yn mynd yn hunanfodlon mwy o gymysgu a chyfraddau achosion COVID-19 uwch yn y gymuned, bydd hyn yn cael effaith andwyol ar bobl sydd heb eu brechu oherwydd eu crefydd/credoau. | Mae'n debygol y bydd llai o bobl yn manteisio ar frechu mewn cymunedau crefyddol ac efallai na fyddant yn derbyn brechu mewn egwyddor. Mae'r rheini sydd â chredoau cryf ynghylch brechu am resymau nad ydynt yn grefyddol hefyd yn debygol o fod â chyfradd frechu isel. Gall y credoau hyn gynnwys amheuaeth ynghylch diogelwch ac effeithiolrwydd brechu. Dengys ymchwil ONS fod petrusrwydd ynghylch cael y brechlyn yn uwch ar gyfer oedolion sy'n nodi eu hunain yn Fwslimiaid (14%) neu Arall (14%) fel eu crefydd, o'i gymharu ag oedolion sy'n nodi eu bod yn Gristnogion (4%)[38]<br><br>Nid yw'r un o'r brechlynnau Covid-19 a gymeradwywyd gan MHRA yn cynnwys unrhyw wy neu gynnyrch | Mae'r rheoliadau diweddaraf yn egluro yr ystyrir bod pobl sy'n gweddïo yn eistedd at ddibenion darpariaethau pasys COVID yn Rheoliadau'r Cyfyngiadau. Felly, dim ond pan fydd y niferoedd yn fwy na 10,000 y bydd angen pàs COVID arnynt yn y lleoliadau hyn. |

[38] Coronavirus and vaccine hesitancy, Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk), 9 Awst 2021

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | anifeiliaid. Fodd bynnag, mae rhai unigolion yn dal i sôn am bryderon ynghylch cynhwysion y brechlynnau Covid-19.[39] | |
| Rhyw / Rhywedd | Negyddol: Mae mwyafrif y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n darparu gofal, boed hynny'n gyflogedig neu'n ddi-dâl, yn fenywod, ac maent yn fwy tebygol na dynion o ddarparu cymorth di-dâl yn y cartref (Grŵp Cyllideb Menywod, Covid-19: Materion Rhywedd a Chydraddoldeb) felly pe bai pobl eraill yn credu bod cymdeithasu gan ddefnyddio pàs COVID yn gwbl ddiogel yn arwain at gynnydd mewn achosion, gallai hyn effeithio ar y grŵp hwn.<br><br>Cadarnhaol: Ar y llaw arall, gallai'r diogelwch ychwanegol sy'n cael ei gynnig os bydd y pàs COVID yn cael ei ddefnyddio fel mesur diogelu ychwanegol ochr yn ochr â'r mesurau rhesymol eraill, roi rhagor o | Amh | Bydd ymddygiad sy'n cymryd risg/hunanfoddhao l drwy ddiogelwch tybiedig o gwrdd ag eraill sydd â phàs COVID yn cael ei amlygu mewn canllawiau craidd a thrwy lwybrau cyfathrebu, er mwyn pwysleisio y bydd pasys COVID yn un o gyfres o fesurau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith, ac nad yw'n disodli'r mesurau eraill hyn.<br><br>Mae adroddiadau wedi bod ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol hefyd ynghylch effaith y brechlyn ar ffrwythlondeb dynion, felly gall camwybodaeth fod yn ffactor wrth i ddynion ddewis peidio â chael eu brechu. |

39 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/covid19vaccinerefusaluk/februarytomarch2021

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | amddiffyniad i'r grŵp hwn rhag y feirws.<br><br>Negyddol: Cynrychiolir menywod yn anghymesur yn y sector lletygarwch ac felly'n fwy tebygol y bydd cyflwyno pasys COVID yn effeithio'n negyddol arnynt os ydynt yn arwain at golli mwy o swyddi yn y sector<br><br>Negyddol: Mae'r mewnwelediadau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar COVID-19 (https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19latestinsights/deaths) yn dangos bod pandemig COVID-19, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021, wedi cael effaith gyfrannol uwch yn gyson ar gyfraddau marwolaethau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Wrth ganolbwyntio ar farwolaethau oherwydd COVID-19, roedd y gyfradd marwolaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Lloegr yn fwy na dwbl hynny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig am 12 o'r | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | 14 mis. Os bydd pasys COVID yn arwain at ddirywiad economaidd, gall hyn effeithio'n anghymesur ar fenywod gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod aelwydydd menywod sengl heb blant yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o dlodi incwm cymharol (Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 \| LLYW.CYMRU) | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol) | Cadarnhaol: Efallai y bydd y grŵp hwn yn elwa mwy nag eraill o allu cymdeithasu'n ddiogel ac yn gyfrifol gyda ffrindiau a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, gyda'r mesur diogelu ychwanegol hwn ar waith, o ystyried bod y grŵp hwn mewn mwy o berygl o orfod ynysu, mwy o straen, dod i gysylltiad ag aelodau amharchus o'r teulu, gan effeithio'n benodol ar bobl iau a hŷn.<br><br>Negyddol: Gall mesurau COVID-19 a'r effaith economaidd-gymdeithasol gysylltiedig, effeithio'n arbennig ar y grŵp hwn oherwydd bod ganddo incwm is, yn profi digartrefedd a | Amh | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | thlodi, ac yn cael llai o fynediad at wasanaethau gofal iechyd a chymorth. | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni nodwyd unrhyw effeithiau unigryw ar y grŵp gwarchodedig hwn. | Amh | Amh |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Negyddol: Mae'r mewnwelediadau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar COVID-19 (https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19latestinsights/deaths) yn dangos bod pandemig COVID-19, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021, wedi cael effaith gyfrannol uwch yn gyson ar gyfraddau marwolaethau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Wrth ganolbwyntio ar farwolaethau oherwydd COVID-19, roedd y gyfradd marwolaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Lloegr yn fwy na dwbl hynny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig am 12 o'r 14 mis. Os bydd pasys COVID yn arwain at ddirywiad economaidd, gallai hyn effeithio'n anghymesur ar blant | Nid oes yn rhaid i blant dan 18 oed ddarparu pàs COVID er mwyn cael mynediad i ddigwyddiadau, ond efallai y bydd hyn yn effeithio ar eu rhieni ac na fyddant yn mynd i ddigwyddiadau o'r fath. | Cyhoeddi canllawiau ar fesurau rhesymol gyda chyngor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Bydd Pás COVID papur ar gael i unigolion nad ydynt yn gallu defnyddio'r system ddigidol i gael mynediad i safleoedd a lleoliadau yng Nghymru. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | oherwydd yng Nghymru, roedd 31% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn 2017 i 2020. Plant yn gyson yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol. Roedd 73% o blant sy'n byw mewn aelwyd ddi-waith mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 25% yn byw mewn aelwyd sy'n gweithio yn 2017 i 2020 . Os bydd pasys COVID yn arwain at golli swyddi yn y sector lletygarwch bydd plant y mae eu rhieni wedi colli eu swyddi yn dioddef yn arbennig [Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 \| LLYW.CYMRU]<br><br>**Effeithiau negyddol posibl**<br><br>Efallai na fydd plant sy'n ddibynnol ar eu rhieni yn gallu mynd i ddigwyddiadau mawr (e.e. gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol Cymru yn yr Hydref, gemau pêl-droed Abertawe a Chaerdydd ac ati sydd â dros 10,000 o gefnogwyr) os nad yw eu rhieni wedi cael eu brechu a'u bod yn | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | gwrthod sefyll y prawf llif unffordd.<br><br>Gallai fod problem hefyd os nad oes gan rieni/neiniau a theidiau fynediad at y seilwaith digidol i ddarparu tystiolaeth o frechlyn ac felly ni fydd y rhiant (a'r plentyn) yn gallu dod i'r digwyddiadau hyn. Gallai Erthygl 31 - Mae gan bob plentyn hawl i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau fod yn berthnasol yma.<br><br>Ar gyfer plant sy'n gallu mynychu digwyddiadau mawr gan fod eu rhieni/gwarcheidwaid wedi cael eu brechu neu'n barod i sefyll prawf llif unffordd: a yw'n bosibl cael effaith negyddol os oes nifer fawr o blant heb eu brechu yno (gan gynyddu trosglwyddiad), neu hyd yn oed drosglwyddo gan y rhai sydd wedi'u brechu – beth yw safbwynt iechyd y cyhoedd ar hynny? (ond gweler hyn hefyd o safbwynt cyferbyniol o dan effeithiau cadarnhaol posibl isod) | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | **Effeithiau cadarnhaol posibl**<br><br>Manteision posibl i blant (a'u teuluoedd) drwy geisio darparu amgylchedd mwy diogel ar gyfer digwyddiadau mawr, drwy ofyn am basys neu brofion llif unffordd. Mae'r polisi hwn yn gyson â'r penderfyniad i frechu plant 12-15 oed (ar sail manteision cymdeithasol ehangach yn hytrach nag iechyd). Gallai Erthygl 6 (Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach) ac Erthygl 36 (Dylai plant gael eu hamddiffyn rhag unrhyw weithgareddau a allai niweidio eu datblygiad) fod yn berthnasol yma. | | |
| Aelwydydd incwm isel | **Negyddol:**<br><br>Mae'n bosibl y bydd effaith negyddol ar aelwydydd incwm isel oherwydd diffyg mynediad at dechnoleg a chostau ychwanegol fel costau uwch posibl digwyddiadau, o ganlyniad i roi mesurau Iechyd a | I'r rheini sydd wedi'u heithrio'n ddigidol (gan gynnwys rhieni neu neiniau a theidiau) bydd pàs papur ar gael sy'n dangos statws brechu, er gall gymryd hyd at uchafswm o 10 diwrnod rhwng yr alwad ffôn a chael y dystysgrif. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda busnesau i gynyddu | Bydd pasys COVID papur ar gael i unigolion nad ydynt yn gallu defnyddio'r system ddigidol i gael mynediad i safleoedd a lleoliadau yng Nghymru. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Diogelwch ychwanegol ar waith.<br><br>Negyddol: Mae'r mewnwelediadau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar COVID-19 (https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19latestinsights/deaths) yn dangos bod pandemig COVID-19, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021, wedi cael effaith gyfrannol uwch yn gyson ar gyfraddau marwolaethau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Wrth ganolbwyntio ar farwolaethau oherwydd COVID-19, roedd y gyfradd marwolaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Lloegr yn fwy na dwbl hynny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig am 12 o'r 14 mis. Os bydd pasys COVID yn arwain at ddirywiad economaidd, gallai hyn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd incwm isel o ystyried eu bod yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi. | dealltwriaeth a gwybodaeth am ofynion. | |

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

Drwy gyfyngu ar ardystio Covid-19 i'r rheini sydd wedi cael dau frechiad Covid-19 neu brawf Llif Unffordd negyddol yn unig, gellir torri ar yr erthyglau canlynol o'r ECHR ar sail iechyd y cyhoedd, y gellir ei chyfiawnhau: erthygl 5 (hawliau i ryddid); 11 (hawliau i ymgynnull); 14 (gwahardd rhag gwahaniaethu). Mae'r rhain i gyd yn hawliau amodol a gall ymyrryd â'r hawliau hyn fod yn gyfreithlon lle mae'r ymyrraeth honno'n angenrheidiol er mwyn cyflawni nod cyfreithlon, ac sy'n gymesur â'r nod hwnnw.

Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hefyd yn cydbwyso ymyrraeth â'r hawliau i fywyd (Erthygl 2 o'r ECHR) sy'n gosod rhwymedigaethau cadarnhaol ar y wladwriaeth i ddiogelu bywyd. Er bydd cyflwyno'r pàs COVID yn torri nifer o erthyglau'r ECHR, ystyrir bod hyn yn gymesur er mwyn darparu ymateb iechyd y cyhoedd i bandemig y coronafeirws. Mae mân gyfyngiadau ar symudiadau a chynulliadau ar gyfer y rheini sydd heb bàs yn taro cydbwysedd rhwng diogelu iechyd y cyhoedd a'r niwed cymdeithasol, ariannol, economaidd a llesiant a achosir gan y cyfyngiadau hyn.

Yn yr un modd, mae gweithredu'r pàs COVID yn ceisio lliniaru yn erbyn niwed iechyd meddwl a chorfforol y gallai grwpiau agored i niwed ei ddioddef o ganlyniad i'r gofyniad hwn.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Pe bai'r cynigion ar gyfer y cynllun hefyd yn ymestyn i blant, sef pobl o dan 18 oed, byddai angen ailedrych ar yr asesiad effaith hwn er mwyn nodi unrhyw effeithiau posibl o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion y Confensiwn. Rydym yn ymwybodol o rai effeithiau negyddol posibl sy'n cael sylw yn yr adran berthnasol uchod, gan gynnwys y ffaith efallai na fydd plant yn gallu mynychu digwyddiadau ar raddfa fawr os nad yw eu rhieni wedi cael eu brechu, ac nad ydynt yn barod i sefyll y prawf llif unffordd cyn dod i'r digwyddiad.

Y Gymraeg

Nid oes disgwyl i'r cynigion effeithio'n gadarnhaol nac yn negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg, a bydd gwybodaeth am basys COVID ar gael yn ddwyieithog yn unol â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Fodd bynnag, bydd y gallu i gael gafael ar y wybodaeth hon yn rhwydd hefyd yn cael ei effeithio gan ardal (gwahaniaeth mewn cysylltedd band eang trefol/gwledig) ac oedran (gyda charfannau hŷn o'r boblogaeth â lefelau is o lythrennedd digidol na'u cymheiriaid iau), er y gellir dweud hyn am fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau canllawiau ar-lein.

Diogelu Data

Mae gwybodaeth am unigolion yn cael ei chasglu fel rhan o'r cynllun pasys COVID.

Bydd gwasanaeth GIG Cymru yn trin data'n ddiogel yn yr un modd â data iechyd arall yng Nghymru. Mae'r holl ddata'n cael ei anfon gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru GIG Cymru at SAIL (y banc data sy'n helpu'r Llywodraeth a'r GIG i fynd i'r afael â'r pandemig). Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru cyffredinol wedi cael ei wneud mewn perthynas â chyflwyno'r trefniadau olrhain cysylltiadau torfol yng Nghymru.

Mae'r pàs COVID yn gweithio i leihau lledaeniad COVID-19 drwy ddangos bod y deiliad naill ai wedi cael ei frechu'n llawn, neu wedi cofnodi LTF negyddol cyn cael mynediad at weithgareddau neu ddigwyddiadau penodol. Gallai hyn fod yn hanfodol yn null gweithredu'r Llywodraeth i helpu i arafu ac atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo i eraill.

Mae llacio cyfyngiadau yn Lefel Rhybudd 0 yn golygu bod pobl yn cwrdd yn amlach mewn cyd-destunau gwahanol a lluosog. Lle bo achosion positif yn bresennol, gallai hyn arwain at fwy o gyfleoedd i drosglwyddo, a allai arwain at ragor o achosion a chysylltiadau cadarnhaol. Ers symud i lefelau rhybudd is, mae nifer y cysylltiadau wedi dyblu o'i gymharu â'r nifer mewn tonnau cynharach. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fwy o bobl hunanynysu a chael eu heffeithio gan y niwed cysylltiedig.

Drwy gydol pandemig COVID-19, mae'r niwed sy'n gysylltiedig â hunanynysu a thorri hawliau pobl wedi cael ei gofnodi'n eang ac mae wedi cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl[1]; incwm a busnes[2] a phlant a phobl ifanc [3]. Mae'r elfen Amddiffyn wedi'i dylunio i liniaru yn erbyn effeithiau o'r fath. Mae Amddiffyn rotect yn nodi unrhyw gymorth a allai fod ei angen i helpu a galluogi pobl i gymryd rhan mewn profion a hunan-ynysu yn llwyddiannus i atal COVID-19 rhag lledaenu. Mae Awdurdodau Lleol yn cydlynu'r gefnogaeth hon i ystod eang o grwpiau penodol ar lefel leol, gan weithio gyda'r cyhoedd, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau a chyfeirio at asiantaethau eraill, lle bo hynny'n briodol.

---

[1] https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(20)30460-8/fulltext

[2] https://phw.nhs.wales/news/staying-at-home-policy-has-reduced-spread-of-coronavirus-but-has-also-had-other-positive-and-negative-impacts-on-the-well-being-of-welsh-society/a-health-impact-assessment-of-the-staying-at-home-and-social-distancing-policy-in-wales-in-response-to-th/

[3] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf